OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 8

## BENTHYCIAD CYNHALIAETH

**[F1 Swm y benthyciad cynhaliaeth: myfyrwyr rhan-amser sy'n cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig**

**58A.**—(1) Pan fo myfyriwr rhan-amser yn cymhwyso i gael taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50, cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr yn unol â pharagraff (2).

(2) Cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth drwy gymhwyso'r camau a ganlyn—

*Cam 1*
Nodi swm y grant sylfaenol a'r grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr sydd i'w drin fel taliad cymorth arbennig o dan reoliad 50.

*Cam 2*
Cyfrifo swm cymwys y cymorth byw i'r myfyriwr drwy gyfeirio at Dabl 10A, pan fo Colofn 2 o'r tabl yn pennu swm y cymorth byw sy'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd a bennir yng Ngholofn 1.

**Tabl 10A**

| *[F2 Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Swm y cymorth byw i'r myfyriwr rhan-amser pan fo cymorth arbennig yn daladwy* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | £6,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | £6,815 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £7,245 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £7,640 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio**]** |

*Cam 3*
Didynnu swm y taliad cymorth arbennig a nodir yng Ngham 1 o swm cymwys y cymorth byw a nodir yng Ngham 2.

Y canlyniad yw swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr.

(3) Yn y rheoliad hwn, "cymorth byw" yw'r term ar gyfer y taliad cymorth arbennig, y grant cynhaliaeth a'r benthyciad cynhaliaeth ar y cyd.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 58A wedi ei fewnosod (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **6**

**F2** Rhl. 58A Amnewidiwyd Tabl 10A (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 31**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 22/02/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.